



DATGUDDIWYD bron y cyfan o ddirgelion y darlun uchod a ymddangosodd yn Y Casglwr diwethaf gan lu o'r darllenwyr craff. Gwyndaf Jones, 3 Heol Colbren Uchaf, Gwauncaegurwen yn cywir sicrhau mai'r Parch. Charles Haddon Spurgeon yw'r pregethwr yn ei gapel ei hun, Metropolitan Tabernacle, Llundain, lle'r oedd pulpud agored, fel yr ymhelaetha Cyril Lloyd, Glastir, Dinbych, ynghyd â dwy oriel.

Cafwyd manylion helaeth ynghyd â darluniau i brofi hyn gan Gwyn Jones, Llwyn y Ne, Clynnog, a chyfeirir at hyn yn fanwl gan y Prifathro John Rice Rowlands, Coleg y Bedyddwyr Bangor ac at bedair cyfrol hunangofiant Spurgeon a'r ddwy gyfrol ddiwygiedig a gyhoeddwyd yn 1973; ac fe awgryma mai myfyrwyr ei goleg hyfforddi gweinidogion yw'r bobl ifanc sydd ger y sêt fawr.

Awgrymir hefyd mai'r rheswm pam y gwnaed y darlun – sy'n amlwg yn gopi manwl o lun arall — yn 1892 yw'r ffaith mai dyna flwyddyn marw Spurgeon, fel y noda David Pulesion Williams, Rhianfa, Bae Trearddurr.

Erys y wybodaeth ychwanegol sydd ar y copi – sef enw Pwllheli ac enw Evan Hugh Parry, yn ddirgelwch. Ond hysbysa D.G. Lloyd Hughes, New Inn, Pencader (hanesydd Pwllheli) fod, yn rhyfedd iawn, bulpud agored tebyg i un y darlun yng nghapel Salem Pwllheli cyn iddo fynd, neu gael ei roi, ar dân (gweler y stori honno isod) yn 1913 – yn wir cyn cael ei ad-newyddu yn 1893.

Am Evan Hugh Parry dywed fod un o'r un enw yn y cyfnod yn hysbysebu ym Mhwllheli ei fod ar gael fel tafleisydd a diddanydd.

A chawn gan Elis Gwyn, Llanystumdwy fod yna gofnod fod yna Evan Hugh Parry, naw mis oed, yn byw yn Pen Lôn Llŷn – er na nodir rhif y tŷ. Ei fam, Jane Parry, yn wniadwraig a gweddw. Yng ngofnodion 1881 cawn enw Evan Hugh Parry deg oed yn 26 Pen Lôn Llŷn a'i fam, fe ymddengys,, wedi ail-briodi Richard Price, llongwr o Bwllheli.

Uchod, y copi ar y dde, y gwreiddiol ar y chwith.

*o dud 10*

Felly, y diwrnod cynt, aeth rhai o'r cwmni a âi yno â'r cludwrw a dilynwyd hwy gan y gweddill drannoeth. Nid oedd y mynd yn boblogaidd o hyd ond mynd oedd raid.

Aeth Benjamin Hall gyntaf ar y trên gyda'i was Godfrey. Gellid meddwl eu bod yn mynd ryw bellter mawr, i ni beth bynnag, ond yr oedd yn dipyn o fynd iddynt am fod angen cymaint o bethau arnynt dros gyfnod o fis hir.

Rhoddwyd pawb yng ngofal ei gilydd yn Llanofer a'r un modd y rhai a âi i Ddinbych-y-Pysgod. Eisteddai Margaret a Mrs Davies y tu allan i'r cerbyd a'r Arglwyddes, Miss Lucas a Mr Lewis y tu mewn. Nid oedd na gwas na morwyn hyd y gwelaf i, yn colli eu henwau priod ac yn cael rhai Cymraeg, oherwydd ni sonnir gan y dyddiadur am y fath beth.

Yr oedd '4 horses and postillions' yn mynd â nhw ac yr oedd yn oer iawn. Yn Arberth cymerasant y trên am Gasnewydd, Caerdydd, Abertawe ac Arberth. Yn y lle olaf yr oedd 'stage and four' yn eu disgwyl i fynd â nhw yr un filltir ar bymtheg olaf.

'Roedd y ffordd yn 'hilly', medd Margaret, a rhaid oedd croesi 'a bare and black common' tua milltir o hyd. Pan ddechreuodd dywyllu cododd yn wynt cryf fel na allent ond prin ddal eu 'wrappings' amdanynt.

'On entering Tenby the rate we went was something fearful' a thybiodd fod y lle yn edrych yn 'very wild'. A chyda Miss Lucas yr aeth hi fel y dywedodd yr Arglwyddes wrthi.

Drannoeth clywodd gan y morynion a aethai o'u blaen eu bod yn hapus iawn ynglŷn â'r lle 'making us submit cheerfully to our exile'.

Mawrth yr 21ain oedd penblwydd yr Arglwyddes ac aeth Margaret â pharsel iddi i South Cliff lle'r oedd hi'n aros. Edmygai Margaret yr olygfa hardd o'r traeth, Ynys Bŷr ac ymhellach. Cafodd hi a'r lleill ddigonedd o gyfle i grwydro ar hyd y traethau a'r clogwyni.

Crwydrai ambell dro ar ei phen ei hun ac wrth gael ei gwefreiddio gan weld y lloer yn codi a'r llanw'n araf ddod i mewn daeth i'w chof gerdd Tennyson a'r llinellau 'And I wish that my tongue could utter / The thoughts that arise in me.'

*I'w Barhau*

# Y TÂN YN LLYN

GWIR A ddywedwyd nad darlun o unrhyw gapel ym Mhwllheli ar ei wedd bresennol mo'r darlun olew ar dudalen flaen "Y Casglwr" diwethaf. Eto, fodd bynnag, fe allasai fod yn gapel Salem (M.C.) y dref cyn i hwnnw gael ei ysu gan dân, a'i atgyweirio'n ddiweddarach gan fod yn hwnnw hefyd bulpud agored.

Yn 1913 y bu'r tân – a hwnnw'n dân wedi ei gynnau'n fwriadol gan ŵr o'r enw William Alexander Booth Ross. Ceisiodd roi capel Tabernacl y Bedyddwyr hefyd ar dân yr un noson.

Yno, yn y Tabernacl, 'roedd o wedi agor y jetiau nwy ac wedi rhoi tân ar un ohonynt, ond o drugaredd fe ddarganfuwyd y perygl mewn pryd cyn i'r ffrwydrad ddigwydd.

Yn ôl y stori a adroddir yn "Yr Utgorn", papur lleol Pwllheli, Richard Evans, y meddyg esgyrn, a welodd y tân yn Salem gyntaf.

'Roedd hi tua un o'r gloch fore Sadwrn a chyn pen dim roedd cannoedd o bobl wedi ymgasglu o gwmpas y lle – llawer ohonynt yn cynorthwyo gwŷr y frigâd dân.

Ond lledaenu a wnaeth y fflamau a chyn pen teirawr nid oedd ond muriau moelion o'r capel yn aros – '''Yr organ hardd, y pwlpud a'r seddau, y to a'r holl goed oedd oddi mewn i'r adeilad yn lludw, a gwydrau'r ffenestri a'r pibellau yn toddi ac yn rhedeg fel dwfr."

* * *

## Gan DYFED EVANS

ROEDD llewyrch y tân i'w weld filltiroedd i ffwrdd a'r olygfa'n atgoffa'r gohebydd o ddisgrifiad Eben Fardd o'r deml yn "Dinistr Jeriwsalem" – "Trwst bon clyw acw'r trawstiau'n clecian . . . A drych o ddistrwch oedd edrych drosti."

'Roedd yn amlwg, meddid, fod y capel wedi ei roi ar dân yn fwriadol. Llwyddasid i arbed y festri, ond darganfuwyd olion tân yn rhai o'r cypyrddau yn y fan honno hefyd. Dangosai hynny nad damwain a fu.

Ac yna wrth gwrs clywyd am yr anfadwaith yn y Tabernacl.

Ar y dechrau tybid mai rhan o ymgyrch y 'suffragettes' oedd cynnau'r tân, ond cafwyd tystiolaeth gan hwn ac arall iddynt weld dyn dieithr yma ac acw yn y dref a bod "amheuaeth ynghylch ei amcanion".

Un lle y gwelwyd ef ynddo oedd festri'r capel Wesla tua saith o'r gloch nos Wener ac roedd pob disgrifiad o'r dyn yn cyfateb i ddyn y chwiliai'r heddlu amdano ynglyn â thorri i mewn i addoldai ym Mangor a'r cyffiniau.

Y canlyniad fu arestio William Alexander Booth Ross ym Mhentrefelin, rhwng Cricieth a Phorthmadog. Yn y llys ym Mhwllheli y bore Llun dilynol gofynwyd i'r diffynydd a oedd ganddo wrthwynebiad i ohirio'r achos am wythnos. Atebodd yntau: "Dim o gwbl cyn belled ag y caf ddigon i'w fwyta."